# IS-BWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTHOL DE-ORLLEWIN CYMRU

**(O Bell Trwy Teams)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Iau, 21 Tachwedd 2024** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd R.Sparks** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | R.Davies, D.Howlett, M.John, M.Tierney, D.Cundy, P.Black a/ac W.Lewis |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Eynon, S.Aldred-Jones, K.Tillman, N.Pearce a/ac A.Thomas |

---

## 1. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 3 Medi 2024 a 14 Hydref 2024 fel cofnodion gwir a chywir.

## 4. DIWEDDARIAD YR IS-BWYLLGOR – CYNLLUNIO STRATEGOL (YMGYNGHORIAD)

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad a ddosbarthwyd ym mhecyn yr agenda.

Mae Llywodraeth Cymru'n mynnu bod pob sefydliad rhanbarthol yn paratoi Cynllun Datblygu Strategol. Bu'r gofyniad hwn ar waith ers amser maith. Mae'r rhanbarth wedi bod yn lobïo Llywodraeth Cymru am yr adnoddau i allu ymgymryd â'r cyfrifoldeb. Mae cost amcangyfrifedig paratoi Cynllun Datblygu Strategol oddeutu £2.5m. Nid oes gan y rhanbarth y cyllid i lunio'r cynllun. Ar hyn o bryd, mae'r rhanbarth wedi dyrannu £20,000 i lunio ymateb rhanbarthol i'r cynllun.

Cadarnhawyd nad oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig yr adnoddau ariannol i lunio'r cynllun, ac nad oes ganddo'r swyddogion cynllunio angenrheidiol i ddatblygu'r polisi hwnnw.

Cadarnhaodd y swyddog fod Gogledd Cymru a Chanolbarth Cymru yn yr un sefyllfa o ran yr eitem hon ac nad ydynt wedi mynd rhagddynt i baratoi cytundeb cyflawni. Credir bod Caerdydd wedi paratoi cytundeb cyflawni ond nad ydynt wedi dechau rhoi'r cytundeb hwn ar waith gan yr amcangyfrifwyd y bydd yn costio £3.5m.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi hefyd yn paratoi llawlyfr ar gyfer pob un o'r rhanbarthau y bydd yn rhaid iddynt gydymffurfio ag ef wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Strategol. Rhannwyd fersiwn ddrafft o'r arweiniad ar y Cynllun Datblygu Strategol â swyddogion cynllunio ledled Cymru'n gynharach yn y flwyddyn, gan awgrymu y byddai'r arweiniad swyddogol yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn y flwyddyn. Hyd yn hyn, nid yw hwn wedi cael ei gyhoeddi. Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y caiff ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2025. Dywedodd y swyddogion na fyddai'n gyfrifol i'r rhanbarth ddechrau paratoi Cynllun Datblygu Strategol heb yr arweiniad gan Lywodraeth Cymru.

Mynegodd yr aelodau eu rhwystredigaeth nad oes digon o arian ar gael i gefnogi swyddogaethau’r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Ar ben hynny, rhoddir straen a phwysau amhriodol ar y swyddogion sy'n ymgymryd â dyletswyddau gofynnol y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Yn dilyn gwaith craffu, mae'r aelodau'n nodi ac yn cymeradwyo'r trosolwg o'r broses o wneud y gwaith gofynnol yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021, gan nodi'n benodol yr anawsterau wrth gydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol a chymeradwyo Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru i gyfathrebu ymhellach â Llywodraeth Cymru ac ysgrifenyddion y Cabinet i roi gwybod am yr hynt a'r heriau er mwyn cyfyngu ar unrhyw gamau yn erbyn y cyd-bwyllgor am unrhyw doriadau posib.

## 5. BLAENRAGLEN WAITH 2024-2025

Rhoddwyd y newyddion diweddaraf i'r aelodau am eitemau ar gyfer y Flaenraglen Waith.

Penderfynodd yr aelodau ar eitemau a ddewiswyd o Flaenraglen Waith y Cyd-bwyllgor Corfforedig, i'w hystyried yn y cyfarfod a gynhelir ym mis Ionawr 2025.

Nododd yr aelodau y Flaenraglen Waith.

## 6. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**